4-116

HYMN AMERICANAIDD.

(Cyfieithiad.)

A welsoch chwi Ef?
A welsoch chwi Ef?
'Rhwn hoffa fy enaid—a'm Duw?
Dros droseddwyr fel myfi,
Rhoes ei hun ar Galfari,
Trwy gyfiawnder fy meichiau caf fyw.

Hoeliwyd yr Aberth,
Hoeliwyd yr Aberth,
Iesu'r addfwynaf oedd fud;
'Rhwn sy'n taenu'r nef fel llen,
A ogwyddodd yno'i ben,
I wneud cymmod dros bechod y byd.

Rhwng nef a daear,
Rhwng nef a daear,
Tair awr o fawr ing a ga'dd;
Attalia'r haul ei wedd,
Pan gymmerai Prynwr hedd,
Ei ddirmygu, ei wawdio, a'i ladd.

T'w'llwch ymdaenodd,
T'w'llwch ymdaenodd,
T'w'llwch aeth dros yr holl wlad;
Y creigydd cedyrn iawn,
A holltasant y prydnawn,
Y croeshoeliwyd Anwylyd y Tad.

Dacw fy Meichiau!
Dacw fy Meichiau!
Difai yw offrwm ein Pen;
Arno ef y rho'wd fy nrwg,
Fe aeth tan y dwyfol wg,
Dug fy ngosp yn ei gorph ar y Pren.

Wedi llwyr dalu,
Wedi llwyr dalu,
Gydâ'r cyfoethog bu E';
Aroglau pêr eu sawr,
Roesant gydâ'm Harglwydd mawr,
Ac mewn bedd na bu neb oedd ei le.

Heddyw yn Eiriol,
Heddyw yn Eiriol,
Eiriol dros wael ddynolryw;
Gan ddywedyd "O fy Nhad,"
"Gwel fy nwylaw a fy rha'd,"
"Mi a'n brynais, O gâd iddynt fyw."

"Cânt os dychwelant,"
"Cânt os dychwelant,"
"Anwylaf Fab! er dy fwyn;"
"Os wynebant attaf fi,"
"Ac os credant ynot ti,"
"I dragwyddol fwynhad cânt eu dwyn."

D. C.

1205221466